Ein thema ar ddechrau'r tymor ydy Hapusrwydd. Bydd y thema yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol yn bennaf gan ddysgu sut i ysgrifennu esboniadau a datblygu sgiliau ychwanegol sy'n cynnwys ysgrifennu brawddeg, defnyddio ansoddeiriau a chofnodi syniadau a phrofiadau. Mae'n dysgu'r plant am bwysigrwydd hapusrwydd, iechyd, lles a dathliadau.

Yn y prosiect hwn bydd y plant yn dysgu:

- Sut i ddeall a gwerthfawrogi eu teimladau eu hunain;
- Sut i gadw'n ddiogel a sut mae bod yn ddiogel yn ein gwneud yn hapus ac yn iach;
- Sut i ddisgrifio emosiynau a theimladau trwy ddrama, dawnsio, celf a cherddoriaeth;
- Am ddigwyddiadau bywyd hapus ac arwyddocaol yn cael eu dathlu e.e. penblwydd, bedydd.
- Sut i gasglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys ffotograffiaeth, celf, cerddoriaeth, darllen, TGCh ac ysgrifennu;
- Sut i gyflwyno gwybodaeth mewn ffordd ddiddorol.